# Trysorydd: Rôl a Chyfrifoldebau

Mae **Mess Up The Mess (MUTM)** yn Theatr Ieuenctid sydd wedi ennill gwobrau ac mae wedi'i lleoli yn Rhydaman a Dyffryn Aman. Ers 2005, mae MUTM wedi gweithio gyda'r bobl ifanc yn ein cymunedau sydd wedi'u hynysu fwyaf ac sydd fwyaf agored i niwed, gan ddefnyddio theatr a'r celfyddydau fel offeryn pwerus i ymgysylltu â phobl ifanc a'u grymuso nhw i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed.

Mae ein gwaith yn amrywio o weithdai ar raddfa fach, sy'n canolbwyntio ar faterion penodol, a hyfforddiant i baratoi at waith, i brosiectau ar raddfa fawr sy'n mynd i'r afael â'r materion anodd y mae pobl ifanc yn eu hwynebu heddiw. Mae MUTM yn herio pobl ifanc i gredu ynddyn nhw eu hunain ac yn eu gallu i wneud eu byd yn lle gwell.

Mae MUTM yn angerddol am feithrin dychymyg, rhoi perfformiadau beiddgar, a newid bywydau trwy bob agwedd ar ein gwaith. Mae gwreiddiau'r cwmni yn Nyffryn Aman ond mae'n gweithio ar draws De Cymru.

Fel Trysorydd, byddwch yn chwarae rhan ganolog wrth lunio ein strategaeth, ein llywodraethu a'n presenoldeb o fewn y trydydd sector creadigol. Byddwch yn dod â'ch profiad, eich hygrededd a'ch rhwydwaith i gefnogi'r tîm arwain yn MUTM.

Mae **Cwmni Theatr Mess Up The Mess Cyf** yn fenter gymdeithasol nid-er-elw ac yn ôl ei gyfansoddiad mae'n gwmni cyfyngedig trwy warant.

**Y Rôl**

Mae'r rôl hon yn addas i unrhyw un sydd â diddordeb mewn:

- Dod â phrofiad o arwain a llywodraethu i gefnogi MUTM, neu ddatblygu sgiliau newydd yn y meysydd hyn
- Helpu i osod y strategaeth a'r cynlluniau sy'n llywio gwaith beunyddiol y tîm yn ystod cyfnod cyffrous i'r sector gwirfoddol
- Cyflawni cyfrifoldebau'r Bwrdd gyda gofal, doethineb a phroffesiynoldeb

**Prif Gyfrifoldebau fel Aelod o'r Bwrdd**

- Llywodraethu a darparu goruchwyliaeth strategol i sicrhau bod MUTM yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, yn rheoli ei gyllid yn gyfrifol, ac yn cyflawni ei amcanion, heb gymryd rhan mewn gweithrediadau bob-dydd
- Cymryd cyfrifoldeb am benderfyniadau allweddol a sicrhau atebolrwydd
- Sicrhau bod MUTM yn cynnal y safonau uchaf o ran diogelu ac amddiffyn plant
- Gweithredu gyda gofal, sgil, ac er budd gorau MUTM
- Cyfrannu at ddatblygu gweledigaeth MUTM, ei amcanion a'i gynllun strategol
- Sicrhau bod MUTM yn cadw at yr holl gyfreithiau a rheoliadau perthnasol
- Goruchwylio cyllidebau, diogelu asedau, monitro iechyd ariannol, a sicrhau bod cronfeydd yn cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd
- Nodi risgiau i asedau MUTM, ei enw da a'i weithrediadau, a'u rheoli
- Sicrhau bod MUTM yn atebol i reoleiddwyr, rhanddeiliaid, a'r cyhoedd

- Gwneud penderfyniadau ar y cyd ar gyfer y sefydliad gan ddatgan unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau a'u rheoli
- Dal staff a rheolwyr i gyfrif am gyflawni'r strategaeth y cytunwyd arni, heb reoli gweithrediadau bob-dydd
- Cefnogi ymrwymiad MUTM i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

**Cyfrifoldebau Allweddol fel Trysorydd**

Y rôl gyffredinol yw gweithio gyda Thîm Rheoli a Staff Cymorth MUTM i gadw trosolwg ar faterion ariannol y sefydliad er mwyn sicrhau bod cofnodion a gweithdrefnau priodol yn cael eu cynnal a bod MUTM yn parhau i fod yn ariannol hyfyw.

- Gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Gweithredol i baratoi adroddiadau ariannol i'w cyflwyno i'r Bwrdd mewn cyfarfodydd chwarterol
- Gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Gweithredol i baratoi'r gyllideb flynyddol a'i chyflwyno, a diweddaru'r Bwrdd, dehongli cynigion a gofynion cyfrifyddu a'u hesbonio, a chynghori ar oblygiadau ariannol cynllun strategol y sefydliad
- Dod i gyswllt ag archwilwyr/archwilwyr annibynnol i baratoi'r Cyfrifon Blynyddol, a gyda gweithwyr cyllid proffesiynol eraill y gallai'r Bwrdd eu penodi o bryd i'w gilydd
- Sicrhau bod gan y sefydliad bolisi cronfeydd wrth gefn priodol

**Rhinweddau Aelodau'r Bwrdd**

Rydyn ni'n chwilio am unigolion sy'n gallu dangos:

- Ymrwymiad i wrando ar leisiau pobl ifanc a'u cefnogi i ffynnu
- Ymrwymiad i werthoedd MUTM, ei genhadaeth a'i amcanion
- Dealltwriaeth am ddyletswyddau a chyfrifoldebau cyfreithiol aelodau o'r Bwrdd a pharodrwydd i'w derbyn
- Parodrwydd i neilltuo'r amser a'r ymdrech angenrheidiol ar gyfer y rôl
- Uniondeb a pharodrwydd i gyfrannu a herio'n adeiladol
- Y gallu i weithio'n effeithiol yn rhan o Fwrdd
- Ymrwymiad cadarn i gydraddoldeb, amrywiaeth ac arfer cynhwysol
- Diddordeb proffesiynol neu bersonol yn y celfyddydau a'u potensial i newid bywydau pobl

Rydyn ni'n chwilio am unigolion sydd â **rhai** o'r sgiliau a'r profiadau canlynol:

- Y gallu i ddadansoddi cynigion strategol ac ariannol, ystyried eu goblygiadau, a gwneud argymhellion gwybodus
- Sgiliau a phrofiad ym maes cynllunio busnes, yn ddelfrydol o fewn y diwydiannau creadigol
- Meddwl creadigol a sgiliau datrys problemau
- Marchnata
- Codi arian
- Gweithio gyda phobl ifanc
- Menter gymdeithasol

**Rhinweddau Trysorydd**

- Dealltwriaeth am ddyletswyddau, cyfrifoldebau a rhwymedigaethau cyfreithiol MUTM ac yn eu derbyn

- Profiad o gyllid sefydliad a sgiliau codi arian a chynllunio busnes
- Sgiliau i ddadansoddi cynigion strategol ac ariannol, archwilio eu canlyniadau ariannol a chanlyniadau eraill a gwneud argymhellion i'r Bwrdd
- Parodrwydd i fod ar gael i roi cyngor ariannol ac ateb ymholiadau gan y Bwrdd, y tîm rheoli a'r staff cyllid

**Beth fyddwch chi'n ei gael**

- Sedd ffurfiol ar Fwrdd MUTM
- Gwelededd a hygrededd yn rhan o Fwrdd MUTM
- Y cyfle i wneud gwahaniaeth go iawn gydag ymrwymiad amser ysgafn a hyblyg
- Ad-dalu treuliau rhesymol allan o boced

**Pam Ymuno Nawr?**

Byddwch yn ymuno â sefydliad hynod greadigol ar gyfnod cyffrous wrth iddo lunio'i strategaeth a'i gyfeiriad ar gyfer y dyfodol. Mae hwn hefyd yn gyfle gwych i adeiladu eich portffolio eich hun wrth ichi ddylanwadu ar sefydliad uchelgeisiol, sy'n cael ei arwain gan werthoedd. I wneud cais, lanlwythwch eich CV a llythyr eglurhaol sy'n rhoi sylw i'r rhinweddau Aelodau'r Bwrdd a restrir uchod: https://signup.cymunedmessup.cymru/board2026/

Os hoffech drafod y cyfle hwn neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am y rôl, anfonwch neges trwy e-bost i **hello@messupthemess.co.uk**.
*Rydym yn croesawu ceisiadau gan grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli ac yn annog ymgeiswyr sy'n adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu. Sylwer, mae hon yn swydd ddi-dâl.*